

Adroddiad Atebolrwydd Isaac Sheridan (IL Cymunedau Myfyrwyr)

Ymgyrch Diwrnod Agored

Mae trafodaethau wedi digwydd yn barod efo adran recriwtio'r Brifysgol am gynnwys ein grwpiau myfyrwyr yn y Diwrnodau Agored a Diwrnodau Deiliaid Cynnig, efo'r nod o fod yno i helpu ein cymunedau fod cam ar y blaen wrth recriwtio ar gyfer eu grwpiau ar gyfer y blynyddoedd academiaidd sydd i ddod, yn ogystal â helpu myfyrwyr newydd/darpar fyfyrwyr sy'n dod i Brifysgol Bangor i ffeindio eu pobl a chael y cyfle i fod mewn cyswllt yn barod efo aelodau o'r grŵp cyn ymuno. Hwn oedd y brif flaenoriaeth o'm mhwyntiau maniffesto wrth ddod i mewn i'r rôl, ac yn syniad ro'n i eisiau gweithredu arno'n gyflym. Y pethau diweddaraf i ddod o'r sgysiau hyn efo'r Brifysgol ydi y cawn ni nifer penodol o grwpiau yn mynychu'r Diwrnod Agored ar yr 11^{eg} o Hydref mewn rhan fach, yn gweithio bron fel ffordd i dreialu llwyddiant y ffordd mae'r cynllun yn gweithio, efo'n grwpiau ni wedi eu lleoli yn y babell yn y cwad ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau o 1yh ymlaen, lle fydd cofrestriad newydd gadw eu stwff. Ynghyd â hyn, mae yna hefyd gynlluniau i addasu'r daith o safle Ffriddoedd, efo nod o ddangos Bar Uno i'r rheiny sy'n dod, lle gall fod mwy o le i'n grwpiau myfyrwyr ddefnyddio ar rai Diwrnodau Agored a Diwrnodau Deiliaid Cynnig, ac mi rydw i'n gyffrous iawn i gael gweld hyn yn digwydd.

Ymgysylltiad Digidol

Dw' i'n cydweithio efo Harry ar ei ymgyrch o i godi cydnabyddiaeth o llwyddiannau myfyrwyr, gan gyfuno hyn efo fy nod o wella ymgysylltiad digidol ar hyd ein platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol efo'n grwpiau myfyrwyr. Mi fyddwn ni'n ailgyflwyno 'Gêm Dan Sylw' ac 'Athletwr yr Wythnos' ar gyfer ein Clybiau UA, ynghyd â chyflwyno 'Tîm yr Wythnos'. Mi fydd rhain i gyd yn amlygu ymdrechion a llwyddiannau'r clybiau a'r unigolion sy'n rhan ohonynt yn wythnosol, ac mi fyddant i gyd yn cael eu postio ar Instagram yr UA, fel canlyniad i fi a Harry'n cyd-weithio. I fynd efo hyn, byddwn ni hefyd yn cyflwyno 'Aelod o Gymdeithas yr Wythnos' a 'Gwirfoddolwr y Mis', fydd yn cael eu postio ar fy nghyfrif i, eto fel canlyniad i fi a Harry'n cyd-weithio. Er fy mod i wedi ymgyrchu dros agor cyfrif Instagram newydd ar gyfer Cymdeithasau a Gwirfoddoli'r Undeb, a fysa' wedi arddangos y llwyddiannau hyn a mwy, fel ein prosiectau Gwirfoddoli a sesiynau Cymdeithasau, hwn oedd y syniad maniffesto cyntaf oedd rhaid i mi ei addasu ar ôl siarad efo'n hadran marchnata, oherwydd y diffyg ymgysylltu a hyrwyddo efo'r cyfrif Instagram dwythaf oedd efo'r un thema- doedd o ddim yn llwyddiannus. Felly, er bod y cynllun i gyd heb barhau, mae'r syniadau a'r cynnwys oedd yn rhan ohono dal yn mynd i gael ei ddangos ar fy nghyfrif yn y gobaith y bydd yr ymgysylltu a'r rhyngweithio ar rhain yn gallu helpu i greu cyfrif newydd yn y dyfodol.

Teledu UA Bangor

I barhau'r defnydd o'r cyfrif IL sydd ddim yn weithredol dim mwy, byddwn ni hefyd yn cyflwyno 'Teledu UA Bangor', sef ein sianel newydd ar gyfer yr holl gynnwys fideo digidol o'n clybiau chwaraeon, eu gemau, a chyfweliadau efo capteiniaid clwb a'u haelodau. Ar ôl mynd i'r gynhadledd BUCS blyneddol ym mis Gorffennaf dwythaf, a thrafod efo swyddogion chwaraeon a gweithgareddau eraill ar hyd a lled y wlad am eu hymgysylltiad a'u gweithgaredd cymdeithasol, ces i fy ysbrydoli i wneud yr un peth ar gyfer ein clybiau ni yn y Brifysgol ac arddangos ein gweithgareddau a'n gemau ar sail fwy ffurfiol, gan hefyd roi cyfleoedd i fyfyrwyr (er enghraifft y tîm gweithredol) i ymddangos ar y sianel yn cyfweld myfyrwyr eraill, neu'n ffilmio'r cynnwys ei hun.

Wythnos Merched mewn Chwaraeon

Mi fydd yna hefyd fwy o bwyslais ar ein 'Wythnos Merched mewn Chwaraeon' yn Undeb Bangor, efo'r nod o gynyddu recriwtio ac ymwybyddiaeth ar gyfer ein clybiau chwaraeon i ferched, efo cynnwys digidol yr wythnos yn rhan flaenllaw o hyn. Gyda hyn, mi fydd yna hefyd banel Merched mewn Chwaraeon yn cael ei gynnal yn PL5 yn Pontio, yn cynnwys athletwyr benywaidd Cymreig, a byddant yn trafod uchafbwyntiau eu gyrfaedd, y rhwystrau sydd yn atal mwy o ferched rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, a beth yn fwy gall gael ei wneud i helpu i wella hyn.

Cyfarfodydd Ôl-Radd

Ar ôl sylwi ar y diffyg cyswllt a rhyngweithiad rhwngon ni a myfyrwyr Ôl-Raddedig, gwnes i ddechrau edrych am ffyrdd i wella hyn, efo'r nod o ddefnyddio mwy o leoliadau'r Undeb. Ar ôl helpu i greu'r arolwg Undeb i Ôl-Raddedigion, roedd y rhan fwyaf o'r adborth gan fyfyrwyr yn sôn am y diffyg digwyddiadau/cyfarfodydd i Ôl-Raddedigion allu cysylltu a thrafod efo pobl eraill tu allan i'w adrannau academiaidd. Felly, crëwyd cynllun i gael cyfres o gyfarfodydd Ôl-Raddedig wedi eu cynnal gan yr Undeb yn Y Lolfa, mewn ffordd debyg i'n digwyddiadau Chill a Chat ond efo mwy o ffocws ar helpu myfyrwyr i rwydweithio a chysylltu efo eraill am gyfleoedd posibl i'r dyfodol, a chyfleoedd i gydweithio yn eu hastudiaethau a'u gyrfaedd. Rydyn ni hefyd wedi derbyn swm o gyllid gan MEDR i helpu i gefnogi'r ymgyrch hon.

Ymgyrch Ewch Tu Allan

'Dw i hefyd yn bwriadu parhau efo ymgyrch Neve (yr IL Chwaraeon dwythaf) i gael mwy o fyfyrwyr tu allan, trwy drefnu teithiau cerdded, a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys defnyddio'r tirwedd naturiol yng Ngogledd Cymru. Y gobaith ydi y bydd yr ymgyrch yma'n parhau i dyfu'n bellach eleni, a 'dwi'n edrych ymlaen at gael cydweithio mwy efo cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli ar yr ymgyrch hon, gan drio cynllunio rhai gweithgareddau i fod yn benodol i grwpiau penodol, a cheisio denu mwy o fyfyrwyr sydd ddim yn gyfarwydd efo'n grwpiau myfyrwyr i siarad efo arweinwyr prosiect mewn amgylchedd mwy naturiol.